


WILLIAMS, GRIFFITH JOHN (1854 - 1933), ysgolfeistr, daearegwr, a hynafiaethydd



Enw: Griffith John Williams

Dyddiad geni: 1854

Dyddiad marw: 1933

Priod: Mary Helena Williams (née Howell)

Plentyn: Enid Williams

Plentyn: Daniel Howell Williams

Rhiant: John Williams

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: ysgolfeistr, daearegwr, a hynafiaethydd

Maes gweithgaredd: Addysg; Hanes a Diwylliant; Natur ac Amaethyddiaeth

Awdur: John William Jones

Ganwyd 16 Rhagfyr 1854 yn Hen Dy Capel, Rhiwbrydir, Blaenau Ffestiniog (nid yn Tanygrisiau fel y dywed **J. Lloyd Williams**), un o bum plentyn John Williams, Rhiwbrydir (brawd **Griffith Williams**, Talsarnau), a'i wraig. Wedi gadael yr ysgol bu G. J. Williams yn gweithio fel rybelwr bach ym Melin Holland, chwarel Oakeley, Blaenau Ffestiniog. Byr fu ei arhosiad yno gan iddo fynd i Goleg Normal Bangor. Bu wedyn yn athro ysgol yng Nghorwen (1876) ac yn Nhanygrisiau, ac yn brifathro'r ysgol Frutanaidd, Blaenau Ffestiniog, cyn cael ei ddewis yn 1883 yn brifathro'r Higher Grade School yno. Yn ei oriau hamdden cymerai ddiddordeb mewn daeareg; yn 1891 cyhoeddodd bamffled yn cynnwys ffrwyth ei ymchwil i ddaeareg mynyddoedd Manod, Moelwyn Mawr, a Moelwyn Bach, a chafodd wobwr o gronfa'r Geological Society; yn 1895 penodwyd ef yn arolygydd cynorthwyol mwynogloddiau yng Ngogledd Cymru ac Iwerddon (o dan y Dr. Le Neve Foster). Cyhoeddwyd ei *Hanes Plwyf Ffestiniog*, llyfr sydd yn parhau i fod yn ddefnyddiol, yn 1882. Priododd, Mai 1881, â Mary Helena (bu farw 1916), merch Daniel Howell, Melin Gellidywyll, Llanbryn-mair; bu iddynt saith o blant. Bu farw 3 Chwefror 1933 a chladdwyd ym mynwent Glanadda, Bangor.

Awdur

John William Jones, (1884 - 1954)

Ffynonellau

Syr Wynn P. Wheldon, yn *The Welsh Outlook*, Ebrill 1933

J. Lloyd Williams, yn *Y Traethodydd*, Ionawr 1941

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 121235152

Wikidata: Q20733095

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>



Jones, J. W., (1953). WILLIAMS, GRIFFITH JOHN (1854 - 1933), ysgolfeistr, daearegwr, a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-JOH-1854>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Modeld gan:
Llywodraeth Cymru
Developed by:
Welsh Government